CYNGOR CYMUNED LLANWNDA

COFNODION - GORFENNAF 2015

DYDDIAD	Nos Fercher, 15 Gorfennaf
AMSER	7.00pm
LLEOLIAD	**Ysgol Rhosgadfan**

a) **Croeso**
Croesawyd pawb gan y Cadeirydd. Yn bresennol roedd Neal Williams (Cadeirydd), Tom Ellis, Michelle Williams, Elwyn Jones, Gwilym V Thomas, Gwilym Ll Williams a Caryl Elin Lewis (Clerc).

b) **Ymddiheuriadau**
Rhys Owen, Elin Evans, Nerys Evans.

c) **Datgan Buddiant**
Dim i'w nodi.

d) **Cadarnhau cofnodion 17 Mehefin 2015**
Derbyniwyd fel cofnod cywir.

e) **Materion i'w trafod:**

a) Tir ger Sain
Clerc Wedi siarad gyda Elfyn Williams, Swyddog Gorfodaeth Cynllunio. Mae wedi ymweld a wedi rhoi 'planning contravention notice' i Colin Land. Mae yna drosedd yma o ran rheolau cynllunio a dyma'r cam cyntaf o'r broses cyn cymryd unrhyw gamau gorfodaeth. Mae'n broses hir ond o leiaf mae pethau wedi dechrau symud rwan. Clerc wedi gofyn am ddiweddariad misol.

b) Loriau yn mynd drwy Rhosgadfan
Wedi derbyn ymateb gan y Cyngor yn nodi ein pryderon ond yn dweud fod angen tystiolaeth cadarn a syniad o amseroedd. Mae nhw am fonitro'r sefyllfa. Aelodau yn nodi mai yn y bore mae nhw i weld yn cario yna. Mae nhw i fod yn dod i fyny drwy un ffordd ac allan drwy'r ffordd arall. Cyngor angen dilyn y mater fyny, clerc i ofyn am ddiweddariad.

c) Pont Carreg Lwyd
EJ wedi cyfarfod 3 contractor yna. Hefyd wedi ffonio 2 berson ynghylch y peth heddiw ma, Cyngor Gwynedd yn dweud fod ddim angen cytundeb i wneud y gwaith ond angen cysylltu gyda Walter Hanks, Fisheries Comission i weld os oes angen caniatad nhw.

d) Plannu bylbiau
Clerc wedi derbyn pris gan Twt a Thaclus ar gyfer plannu a pharatoi'r tir. Aelodau yn hapus i dderbyn y cynnig. Nodwyd fod 1 arwydd ychwanegol yn Rhosgadfan a bydd angen ei ychwanegu i'r rhestr.

e) Cytundeb clerc
Cadeirydd yn arwyddo'r cytundeb.

f) Prosiect Arbed Ynni Carmel a Fron (GVT)
Clerc wedi gwneud ymholiadau gyda'r Cyngor, nodwyd nad oes bwriad ymestyn y cynllun i ardaloedd eraill.

g) Cysgodfan yn ymyl Menai View, Dinas (EE)
Nododd y Clerc ei fod wedi gofyn i Wyn, y Contractwr i dwtio'r gysgodfan.

h) Gwair ar ochr lonydd angen ei dorri, arbennig o ddrwg yn Ffrwd Cae Du (EE)
Clerc wedi derbyn ymateb gan Cyngor Gwynedd *"Mae ein contractwr torri gwair*

	gwledig wedi dechrau ar ei waith ers thua tair wythnos. Felly, ddylai gyrraedd eich cymuned chi'n fuan. Yn y cyfamser, fe fydd yr arolygwr yn monitro'r sefyllfa er mwyn sicrhau nad yw cyffyrdd ayyb yn mynd yn rhy beryg i ddefnyddwyr. Mewn perthynas â'r llwyni ger Station House, Dinas, mae'r Gang Cymunedol eisoes wedi torri'r rhain. Fodd bynnag, mae'r arolygwr wedi rhoi cyfarwyddyd iddynt ddychwelyd i'r safle i dorri mwy arnynt." **i) Maes Parcio Arman Dinas – ceir ar werth yno (EE).** Elfyn Williams, Swyddog Gorfodaeth Cynllunio wedi ymweld. Mae caniatad cynllunio yma i ddefnyddio fel maes parcio i'r bwyty. Tydy newid defnydd i werthu ceir ddim yn golygu llawer o newid a byddai'n anodd iawn gwrthod gan fod garej yn gwerthu ceir reit dros y ffordd. Wedi dweud hynny, nid oes cais 'newid defnydd' wedi ei gyflwyno a bydd yn gofyn iddynt gyflwyno un 'retrospective', ond anodd iawn byddai gwrthod ar sail yr uchod. **j) Japanese knotweed ar damaid o dir comin wrth lwybr yn Rhostryfan (Glan Wern - lawr am Derwen Las wrth yr afon) (NE)** Clerc wedi derbyn ymateb gan Swyddog Llwybrau Cyngor Gwynedd *"Mae cyfrifoldeb i warchod unrhyw ledaeniad thyfiant "Japanese knotweed" neu unrhyw blanhigyn o'r math i unrhyw dir cyfagos yn disgyn ar berchennog y tir syn dioddef ar dyfiant hyn. Nodwyd ganoch fod y rhan hyn o'r tir yn dir comin. Yn dilyn ymholiadau gennyf a swyddog perthnasol a thiroedd comin, nodwyd fod rhan hyn o'r tir comin hyn yn rym i eiddo Glanywern a felly ddylid y trafferthion ar dyfiant o'r math hyn cael ei rhoi at ei sylw hwy. Ni wn ers pryd mae'r tyfiant hyn yn bodoli ar y safle enwedig ar lannau'r afon ond mae yna ddiddordeb gan Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC) i unigolion rhoi at ei sylw'r safleoedd ble mae math hyn o blanhigyn yn bodoli ar lannau afonydd a ble all y planhigyn o'r math gynyddu ar dir is i lawr rhedfa'r afon. Gweler cyswllt isod i wefan CNC. Ni ddylid y planhigyn hwn cael ei dorri gall hyn lledaeniad y planhigyn i diroedd arall. Y ffordd orau i'w wared bydd i chwistrellu yn flynyddol am o leiaf pum mlynedd."* Nodwyd y bydd angen i'r Clerc gysylltu gyda Cyfoeth Naturiol Cymru. **k) Cae wrth Pen y Ceunant, Rhostryfan – Gwair yn uchel (NE)** Clerc yn nodi nad yw'n sicr pwy sydd angen cysylltu gyda i adrodd ar y cae. Nodwyd y gallai'r Clerc gysylltu gyda Bethan (cyn glerc) i ofyn am fanylion cyswllt Margaret Bevan. **l) Hysbysfwrdd mynwent – angen cefn newydd (NE)** Nodwyd fod y Clerc wedi gofyn i Wyn drwsio'r hysbysfwrdd. **m) Rhosgadfan - Pen lon wen (mynd am Waunfawr) – cwnion fod lot o sbwriel (MW).** Clerc wedi derbyn ymateb gan Cyngor Gwynedd yn nodi eu bod wedi codi taflen ymholiad i'r Gwasanaeth Gwaith Bwrdeistrefol ar gyfer hyn. Gofynnwyd a oes modd gofyn i'r Cyngor am arwydd i'w roi yno gan fod sbwriel yn ddrwg ar hyd y lon. **n) Gwrych a llwyni yn uchel a llydan– Dinas (RO).** Clerc wedi adrodd a nodwyd fod bellach wedi ei dorri. **o) Cysgodfan Rhos Isaf – dail poethion yn tyfu mewn ynddo (GLlW).** Clerc wedi gofyn i Wyn dwtio.
p)	**Derbyn Adroddiadau**

	Llythyr pellach wedi ei dderbyn gan Cwmni Bronco o ran risgiau gorlifo i'r safle adeiladu tai yn Fron Deg, Rhostryfan. Nodwyd fod y mater bellach yn nwylo Cyngor Gwynedd a ni fydd y Cyngor Cymuned yn ymateb ar y pwynt hwn. **Sedd wag** Llythyr wedi dod gan Bryn Hughes, Rhostryfan yn datgan diddordeb yn sedd wag Rhosgadfan. Clerc i ysgrifennu ato yn diolch am ei ddiddordeb. Cyn derbyn, cytunodd Aelodau fod angen rhoi un cyfle arall i drigolion Rhosgadfan. Clerc i roi hysbyseb arall yn Lleu, Herald a rhoi ar Facebook. Yna os nad oes ymateb byddwn yn derbyn cynnig Mr Hughes**.** Nodwyd fod ebost gan Cynllun Rhandiroedd Rhostryfan wedi ei dderbyn yn nodi eu bod wedi prynu sied gyda'r arian nawdd. **Pyst peldroed –** Nodwyd mai'r Pwyllgor cae chwarae sydd biau'r cae. Angen edrych mewn i ail-osod pyst.
q)	**Is-bwyllgorau** Dim i adrodd
r)	**Adroddiad Ariannol** **Sefyllfa Ariannol y Cyngor ar 14 Gorfennaf 2015** **1. Cyfrif Cadw** Balans a ddygwyd ymlaen: **13,229.12** **Balans ar derfyn busnes 15 Gorffennaf 2015: 13,229.12** **2. Cyfrif Siec** Balans a ddygwyd ymlaen: **5,153.67** **Ers cyfarfod 17 Mehefin 2015, talwyd i mewn:** 1 Claddiad – Robyns & Owen 100.00 **Ers cyfarfod 17 Mehefin 2015, talwyd allan:** 101299 Lleu 15.00 101311 Swyddfa'r Post 106.40 101310 Caryl E Lewis 468.70 101309 Hughes, Jones & Dyson 168.00 **Balans ar derfyn busnes 15 Gorffennaf 2015: 4,495.57** **Taliadau i'w cytuno arnynt yng nghyfarfod 15 Gorffennaf 2015:** Cyflog Clerc Gorff 424.40 Cyflog Clerc Awst 424.40 Cyllid y Wlad Gorff 106.40 Cyllid y Wlad Awst 106.40 **Cyfanswm 1,061.60**
s)	**Materion Cynllunio** Dim wedi ei dderbyn
t)	**Gohebiaeth a chylchgronnau** Ymgynghori ar ddyfodol llyfrgelloedd – Cyngor Gwynedd Gwasanaeth Gwynedd Ni – Gwybodaeth i deuluoedd – Cyngor Gwynedd

u)	**Materion Cyfarfod Nesaf** GLlW- Sgwar Rhos Isaf – Mae 'depression' ofnadwy yn y lon a dwr wedyn yn casglu yna. GLlW - Lon or sgwar am Isfryn (dros y ffordd i Isfryn), mae'r lon yn dyllau i gyd. GLlW - Lon i fyny am Rhosgadfan am yr ysgol, mae chippings wedi eu rhoi ar y lon, ond hanner sydd wedi ei wneud. JH - Torri gwair ar llwybr cae coch Rhosgadfan (or fynwent draw am Rhosgadfan angen ei wneud.) JH - Lon Rhos Isaf lawr am Dinas lle mae gwaith BT – goleuadau traffic dros y bont, ond wedi dechrau agor y lon, gyda mini digger reit ar y gornel, roedd yn peryglus. MW – cattle grid ar y lon sy'n mynd am Waunfawr, giat ddim yn cau yn iawn, felly yn cael ei gadael ar agor, wrth ymyl pont Ty'n Llwyn. Mae eisiau cynnal pob un. MW – Dwr yn rhedeg lawr y lon, rhyw fath o culvert yn gorlifo, dwr yn dod lawr o cae Ty Hen. EJ - dipyn o Japanese knotweed ar lein Bryngwyn, angen trefnu i mitch chwistrellu. EJ - Ffos yn pendraw'r lein (Tyddyn gwydd), French drain yno, angen ail-agor. Wyn i sortio. TE – Beicwyr ddim i weld yn defnyddio'r llwybrau beicio, yn defnyddio'r ffyrdd yn lle. GVT – Herald wythnos diwethaf - roedd erthygl am yr helicopter newydd 'Devils Kitchen' – angen rhoi'r enw cymraeg i fewn. GVT– Cadw – Beth mae nhw'n gwneud gyda Caer Gors? Dim i weld yn digwydd yna. GVT - Llwybr Pen y muriau – angen ei dorri. Neal – Arwyddion solar Rhosgadfan a Ffrwd Cae Du ddim i weld yn gweithio. **Dyddiad: 16 Medi 2015** **Lleoliad: Ysgol Rhostryfan**